# MARWNAD,

ER

COFFADWRIAETH O

FYWYD A MARWOLAETH

*Y PARCH.*

## HOWELL WILLIAMS,

*Gweinidog yr Efengyl*

Yn Nghapel Als, Llanelly, a Nazareth,

Yr hwn a hunodd yn yr Arglwydd Ebrill 24, 1827,
Yn 38 Oed.

---

GAN D. EVANS, TREFORYS.

---

*Oni wyddoch chwi -- i wr mawr syrthio heddyw yn Israel?* 2 Sam. 3. 38.

*Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.* Heb. 13. 7.

---

ARGRAFFWYD GAN F. FAGG, Abertawe.

*(Entered at Stationer's Hall.)*

K205 3117099

MAE Pen Llywydd doeth y bydoedd
  A'u holl luoedd mawr i gyd,
Yn gweithredu'n ogoneddus,
  'Nol 'i ewyllys da o hyd;
Nid oes neb all ofyn iddo,
  O'i holl eiddo yn un man,
P'am y mae e'n gwneud fel yna,
  Neu fel yma ar eu rhan?

2 Mae ei lwybreu yn y dyfroedd,
  A'i ffyrdd yn y moroedd mawr,
Fel y gwna 'fe ddwyn oddiamgylch,
  'Rhyn mae'n chwennych ar y llawr;
Nid oes Seraph, dyn, nag Angel,
  Nag un Cythraul yn y tân,
All ei rwystro byth na'i luddias,
  Fyn'd a'i deyrnas fawr yn mla'n.

3 Clywais newydd yn ddiweddar,
  Barodd alar i fy mron,
I fod Mr. Williams hawddgar,
  Gwedi gado'r ddaear hon;
Heb un gobaith idd ei weled,
  Nag i glywed ganddo mwy,
Byth un Bregeth felus oleu,
  Ar rinweddeu marwol glwy'.

4 Ar bedwarydd dydd ar hugain,
  'Rheth e trwy'r Iorddonen ddû,
O fis Ebrill, yn y boreu,
  I drigfaneu'r nefoedd frŷ;
Yn y flwyddyn o oed Iesu,
  Oedd i'w Chyfrif y modd hyn,
Deunaw Cant a saith ar hugain,
  Dim yn amgen dim yn blin.

5 'Mhen pedwarydd dydd y dodwyd,
'Rhwn a enwyd yn ei fedd,
O fewn mynwent Capel Ali,
Yn Llanelli'n wael ei wedd;
I gael cyscu'i hûn yn dawel,
Yn bur isel yn y pridd,
Hyd nes bloeddio yr Archangel.
"Deffro Hywel, mai'n llawn ddydd."

6 Fe ddymunai y Trancedig,
I'r Parchedig Efans mwyn,
Dd'od o'r Mynydd Bach i'areithio,
Os gwnai iddo 'i wrando'i gwyn;
Ar y dydd y baent 'n ei gladdu,
Yn Llanelli'n wael ei wedd,
Hyd nes gwnelai 'r Adgyfodiad,
Droi 'r agoriad yn ei fedd.

7 A'r Parchedig Dafydd Dafis,
Doniol Dawnus o'r Pantêg,
I dd'od yno'i gwrdd a'u gilydd;
'Nol y rhybydd yn ddifrêg;
Felly daeth y ddau Weinidog,
Yn dra serchog at y gwaith,
Er eu bod Hwy'n gwahaniaethu,
Wrth Bregethu yn eu hiaith.

8 Rhyw rai ofyn yn ddiammau,
Am Destynau y gwŷr hyn?
Minneu'mdrecha'n fwyn eu hatteb,
'Nawr ar wyneb papur gwyn;
Dafis, dd'wedai yn dra êon,
"Eiriau'r Hên Simêon gynt,
"Pan y Cafodd rhwng ei freichiau,
"'R Cyfaill Goreu da oi hynt."

9 Testyn Efans, d'wedaf etto,
Os dwy'n cofio yn ddigoll,
Mae "Mewn ffydd, gwnewch ddala sulw,
" Y bu farw rhai hyn oll;"
'Roedd hi dan y ddau Weinidog,
Yn dra gwlithog trwy'r holl le,
Pan yn d'weyd yr olaf eiriau,
A aeth dros ei enau ê.

10 Dyma'r geiriau a ddywedodd,
Mewn modd Cyhoedd cyn cael gwŷs,
" Tyred'nawr, O Arglwydd Iesu,
" Paid ac oedi, tyr'd ar frŷs,"
Ac ni Chlywyd gair yn rhagor,
Ganddo 'fe yr ochor hyn,
Aeth ei ysbryd fel y fellten,
Ar ei aden trwy y glyn.

11 Aelod oedd o Ferthyr Cynnog,
Gyda'r enwog Williams mwŷn,
Un ar bumtheg oedd ei oedran,
'N d'od i'r gorlan at yr ŵyn;
'Mhen dwy flynedd gwedi hyny,
Gwnai bregethu Crist a'i ras,
I'r Frawdoliaeth ac oedd yno,
Yn milwrio ar y ma's.

12 Yna dodwyd Hywel Wiliam,
Yn Athrofa Gwrexham dre',
Dan ddysgeidiaeth Mr. Lewis,
Athraw Parchus, Gwas y ne';
Yno bu dros bedair blynedd,
Yn bur weddaidd gyda'r gwaith,
O astudio Celfyddydau,
Ar 'Scrythurau'n amryw iaith.

13 'Nol d'od allan fe ga'dd alwad,
Mewn twym gariad gan Blant Duw,
Oedd 'n ymgynnull yn Llanelli,
'Nghapel Ali'r eglwys wiw;
Williams ai am gyfarwyddyd,
At 'i anwylyd Iesu cu,
Yntau dd'wedai wrtho, "Hywel,
"Ti i'w'i Bugail, atteb hi".

14 'Nol ei hatteb ca'dd ei urddo,
A'i neillduo i'r holl waith,
Gan amrywiol o Esgobion,
Trwy gynghorion dwysion maith;
A thrwy weddi yn ddiorphwys,
Unwyd ef ar eglwys hon,
Ac fe barodd y briodas,
Nes aeth ef i'r ddinas lon.

15 Yn Nazareth 'Roedd ef hefyd,
Yn dra diwyd ddydd a nos,
Yn Cyweirio 'r gynnulleidfa,
I Galfaria at y gro's;
I gael bwyta'r swpiau addfed,
Ddaeth trwy ludded Iesu mawr,
Pan yr oedd Ef arni'n dyodde',
Dros waeleddau llwm y llawr.

16 Fe fu'n gwilied ar y muriau,
Dros flynyddau yn Mhenbre,
A gweinyddu'r ordinhadau,
I aelodau Brenin ne';
Ond 'fe r'odd yr eglwys hono,
Ryw faint heibio Cyn ei fedd,
Am nas gall'sai wasanaethu,
Yn Llanelli byth 'run wedd.

17 Mr. Williams Duwiol dawnus,
Fu'n llwyddianus ddyddiau'i oes,
I gael Canoedd i fynwesu,
'Rhwn fu'n gwaedu ar y groes;
Mab y darau oedd i'r Cyndyn,
Fa'i yn erbyn achos Duw,
A Diddanydd oedd i'r ufydd,
Fa'i a Chrefydd o'r iawn ryw.

18 Bu'n Pregethu geirieu'r bywyd,
Yn dra diwyd ar y llawr,
Dros lawn ugain o flynyddau,
I fwyn dlyseu Iesu mawr;
Chwech yn llai, bu yn Weinidog,
Dysclair enwog eglwys Dduw,
Ac 'fe ddarfu bara felly,
Hyd nes iddo fethu byw.

19 'Roedd e'n selog dros yr Ysgol,
Fwyn Sabbothol yn mhob man,
Ei hôff waith ef oedd ei holi,
Nes oedd gwedi myn'd rhy wan;
Chwitheu etto'r doeth Athrawon,
A'r 'Scolheigion o bob gradd,
Byddwch ddiwyd i'w hamddiffyn,
Rhag un gelyn byth ei lladd.

20 Ond ni's ca'dd y Gŵr llafyrus,
Yn ol geiriau Moses mawr,
Fyw ddim llawer iawn o amser,
Fwy na'r hanner ddodwyd lawr;
Tri o ddegau, wyth yn Chwaneg,
Yn ddiattreg gafodd ef,
O flynyddoedd i fod yma,
Ar ei yrfa is y nef.

21 'Roedd dros fil yn wir mi greda',
Yn ei angla'n wylo'n drwm,
Wrth ystyried byddai'i deulu,
A'i eglwysi hebddo'n llwm;
Hawdd oedd gwybod fod y Marw,
Gan bob enw mewn mawr fri,
Neu ni fy'sai cymmaint yno,
Yn cyd hidlo'r dagreu'n lli'.

22 'Chlywir mwy mo'i lais ef yma,
Mewn Cymmanfa tre' na gwlad,
Na chwrdd misol, na chwarterol,
'Ngalw'r bobol at y gwa'd;
Nag o fewn i un gyfrinach,
Byth y mwyach mewn modd ffraeth,
Yn Cyfranu bwyd i'r Cryfion,
Ac i'r gweinion ddidwyll laeth.

23 Nazareth, a Chapel Ali,
Syn galaru 'nawr yn brudd
Am i fod y doniol enen.
'Nghau gan angeu yn y pridd,
Fu'n eu porthi a'r gwin goreu,
O gostreleu gwlad yr hedd,
Hyd nes byddai Sain Hosana!
Trwy'r holl dyrfa ar y wledd.

24 Nag anghofiwch ei Esampleu,
Na'i bregetheu dwysion byth,
Maent yn haeddu eu hail adrodd,
Yn mhith miloedd rif y gwlith;
Dyn yn ddim a Christ yn bobpeth,
Oedd ei weinidogaeth ef,
Ac nad oedd i'r doeth na'r angall,
Un ffordd arall fyn'd i'r nef.

25 Ewch yn un mewn ysbryd mabaidd,
O flaen Duw at orsedd gras,
I daer erfyn arno'i ddanfon,
I chwi etto ffyddlon was;
Ac a fyddo o'r un ysbryd,
Trwy ei fywyd gyda'r gwaith,
Ac oedd Willams yn feddianu,
Nes wynebu'r Cenfor maith.

26 Mrs. Williams gelo etto,
Ei chysuro ar ei ôl,
Gan Dywysog dae'r a Nefoedd,
Mae rhyw filoedd yn ei gôl;
O ymddifaid ac o weddwon,
'N Cael eu digon nos a dydd,
Er eu gŵyr a'u mwyn rieni,
Gael eu dodi yn y pridd.

27 Jane, a John, a'r fwyn Eliza',
Gelo'u gwala gyda Duw,
O'r byd hwn, ac o'r byd nesaf,
Mi ddymunaf tra bont byw;
A boed iddo wneud y Bachgen,
Etto'n Seren fel ei Dad,
I oleuo trwy'r eglwysi,
Sydd gan Iesu yn ein gwlad.

28 Duw'ch bendithio 'rholl Berth'nasau,
Sydd a dagrau ar bob grudd,
Achos Colli'r hôff Gymdeithas,
A'ch Perthynas hardd bob dydd;
Na rwgnechwch, byddwch foddlon,
Mae y goron ar ei ben,
Yn digrifu mewn dedwyddwch,
Byth dywedwch mwy---AMEN.

---

Argraffwyd gan F. Fagg, Abertawe,